

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
7:30YH 21^{AIN} HYDREF 2020
(CYFARFOD DRWY GYSWLLT GWEFAN 'ZOOM' OHERWYDD COVID-19)

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

1.2 Presennol: Ann Vaughan (AV), Mark Davies (MD), Diane Roberts (DR), Gwynfor Davies (GD) a Elen H Edwards (EHE) (wedi cyraedd yn hwyr)

1.3 Ymddiheuriadau: Einir Williams (EW), Garffild Ll Lewis (GLL) a Gwydion Jones (GJ)

1.4 Absennol: Gwyn Williams (GW)

2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

3 COFNODION I'W GWIRO 30^{AIN} MEDI 2020

Cynnigwyd yn gywir gan AV ac eilwyd gan MD.

4 MATERION YN CODI

AV yn codi'r llythyr at y contractwyr – CD wedi cael llythyr drafft gan GLL. CR am ei yrru ymlaen i'r Cynghorwyr gael golwg arno a gofyn i bawb ddod yn ôl ato drwy ebost i gadarnhau ei bod yn hapus efo'r llythyr.

AV hefyd yn codi y gridiau ger Bethabara, problem wedi bod am y berchnogaeth. Mae'n debyg fod DCC (Denbighshire County Council) ar y gridiau felly y Cyngor Sir sydd eu perchen. CR am ofyn wrth GLL i fynd ar ôl y Cyngor Sir.

AV wedi derbyn siec am y blodau ond wedi ei dyddio 26 o Fedi, cyn y cyfarfod olaf (30 o Fedi). GD wedi camgymeryd y dyddiad, cywiro'r bonyn rhag anghysondeb cyfrifon.

5 CEISIADAU CYNLLUNIO

5.1 0/47684: AV yn adrodd nad oedd dim yn tynnu sylw. Dim sylwadau, cytuno i gymeradwyo.

5.2 1/LGW/3897: wedi bod ar ôl y Cyngor ynglyn a'r cais ond heb gael ateb. Am fynd ar ôl y Cyngor eto.

6 MATERION Y CYNGOR

6.1 Mainc solar: wedi derbyn pris £480 gan Kevin Roberts am y gwaith i ail-osod y fainc i gynnwys concritio sylfaen newydd, symud y fainc a'i gosod a chael gwared o'r sylfaen bresennol. Pawb yn hapus efo'r pris a chytunwyd symud ymlaen efo'r gwaith.

7 ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD SIR

Wedi ei dderbyn ar ebost o flaen y cyfarfod.

Annwyl Clwyd a chyd-gynghorwyr

Wedi gobeithio bod hefo chi heno, ond yn anffodus mae problem wedi codi hefo iechyd mam felly bydd yn rhaid i mi ymddiheuro. Felly dyma adroddiad byr:

Newyddion ardderchog y bydd arwyddion 20mph yn cael eu codi y tu allan i'r ysgol a'r ardal gyfagos. Bydd y gwaith yn dechrau ar y 2/3ydd o Dachwedd. Mae hwn yn fesur dros dro am 9 mis fel rhan o brosiect penodol - ond os na fydd gwrthwynebiadau ar ol 9 mis mae siawns dda y bydd yn mynd yn barhaol.

Tua'r un pryd (2/3ydd) fe fydd y gwaith sylweddol yn dechrau ar y Bont Faen. Mae 3 elfen i'r gwaith - y seiliau, y gwaith cerrig ar y bwa, a wyneb y ffordd. Mae'n debyg y bydd y gwaith yn cymryd hyd at fis, ac yn ystod y cyfnod bydd y ffordd ynghau.

Ar yr un pryd hefyd, bydd y gwaith yn dechrau ar godi lefel y wal a llenwi bylchau gyferbyn â Bwthyn yr Afon

Llifogydd Chwefror oedd wedi achosi'r rhan fwyaf o'r difrod - a bydd yn ddiddorol gweld adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru i effaith y llifogydd a beth yw strategaeth CNC i'r dyfodol - fydd yn cael ei gyhoeddi yfory.

Yn dilyn cyfarfod diwethaf y Cyngor Cymuned, bûm mewn cysylltiad a'r Cyngor Sir i nodi'r gwaith sydd angen ei wneud yn yr ardal - torri gwrychoedd, ail wynebu'r man pasio ar Allt Tyn Pistyll ayb. Cefais gwynion eraill hefyd gan unigolion am y gwrychoedd ar Allt Waterloo a llefydd eraill - ac mae'r holl waith wedi ei gofnodi. Mae rhywfaint o'r gwaith wedi ei wneud eisoes. Mae'r gwaith o drwsio ffosydd ochr y ffordd i fyny o Rhan Hir wedi ei gwblhau.

Cafodd gwteri yn y ffordd ger Bethabara eu glanhau - ond dyw safon y gwaith ddim yn ddigon da, a 'dwi wedi cwyno eto wrth y Cyngor Sir.

Yn gyffredinol yn y Cyngor Sir, fe gefais gyfarfod briffio hefo Arweinydd Y Cyngor heddiw ac adroddiadau gan y gwahanol aelodau o'r Cabinet - mae rhai adrannau dan bwysau rhyfeddol ar hyn o bryd - Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant, Cartrefi Gofal, yr Adran Addysg ac Ysgolion, a Busnes ac Economi sy'n delio gyda miloedd o geisiadau am grantiau busnes a chymorth ariannol o ganlyniad i'r argyfwng. Bydd Cymru gyfan yn mynd i 'firebreak, ddydd Gwener, ac mae swyddogion y Cyngor yn gweithio gyda chynghorau eraill i geisio gweld beth fydd y darlun pan fydd y cyfnod 'clô' dros dro yn dod i ben.

Cyfnod anodd i bawb
Ymddiheuriadau eto am fethu bod hefo chi heno
Cofion
Garffild

Dim sylwadau gan y Cynghorwyr. Diolchwyd i GLL am ei waith yn y misoedd diwethaf yn blaenioraethu prosiectau yn y fro.

8 MATERION ARIANNOL

8.1 Cyfrifon hanner blwyddyn – DR wedi ceisio anfon y ddogfen i bawb o flaen y cyfarfod ond heb gael lwc. Sawl siec heb eu cyflwyno (cyfanswm oddeutu £600). Trafododd DR y ffigyrau yn y fantolen fel ac y mae wedi ei pharatoi a dweud ei bod am geisio ail-yrro i bawb yn dilyn y cyfarfod. Adroddodd fod £20,944.29 yn y cyfrif cyfrefol, tan wariant oherwydd dim cyflog clerch yn cael ei dalu. Sefyllfa anodd ar hyn o bryd i gynghorau bach oherwydd nid oes gwario wedi bod yn sgîl Covid-19.

EHE a EW wedi cyfarfod yn ddiweddar i fynd trwy materion yn ddiweddar. EW wedi trafod efo BDO i ddilyn i fyny efo sawl pwynt, diolchwyd iddi am ei gwaith yn gwneud hynny. Sylwadau yn cael eu gyrru i gyfeiriad ebost y Cyngor yn lle DR yn uniongyrchol. DR wedi diolch i'r ddwy am eu gwaith yn ystod y cyfarfod diwethaf.

GD yn codi ei fod wedi gofyn i'r cyfrifydd am y TAW sydd i ddod yn ôl i'r Cyngor, dim byd i weld wedi dod i mewn eto. DR yn codi nad oes anfoneb wedi ei derbyn gan y cyfrifydd hyd yn hyn.

EHE yn codi fod BDO wedi cysylltu yn dilyn taliad sydd yn ddyledus o 2018, wedi mynd yn ôl eto yn gofyn am drawsdoriad o'r gôst.

8.2 Cyflog Enlli Vaughan: wedi ei grybwyll yn y cyfarfod diwethaf gan EW. EHE yn cynnig codi'r cyflog yn ôl y raddfa bresennol fel ôl-daliad o fis Ebrill, DR yn eilio. EHE am holi'r cyfrifydd ynglyn â hyn slipiau cyflog.

9 BILIAU

9.1 Torri glaswellt Medi (£400) a mynwent Gwytherin (£150) i Dei Evans, £550.

9.2 Cyflog Enlli: £45.10.

Cytunwyd i dalu'r biliau uchod.

10 MATERION LLEOL

DR – cwyn am y map efo'r manylion am y gwaith ar y Bont Faen, yr arwydd Give Way a gyrru di-feddwl trwy'r pentref. Gofyn os oedd modd symud y cerrig neidr a wnaed yn ystod Covid-19 i gefnogi'r NHS yn arwain lawr at y toiledau cyhoeddus i rywle saff. EHE yn codi fod yr ysgol wedi codi o bosibl y buasant yn gallu cael ei symud i'r ysgol pan fydd yn saff i wneud hynnu. Cynnig wedi cael ei wneud i'w rhoi yn yr Ardd Goffa.

Dal angen torri gwrychoedd ger Fedwen Arian.

(REW wedi cysylltu efo CR i ddweud fod cysylltiad wê wedi mynd yn rhy ddrwg a gadel y cyfarfod).

AV – coed ar ôl ffordd Waterloo, coed yn tyfu drosodd i'r ffordd yn bachu cerbydau. Wedi cysylltu â GLL.

Ffordd rhwng Bryn Gwylan a Bryn yr Aur wedi dirywio a rhwng Bryn Gwylan a Nant Mawr.

Grant o Fferm Wynt Clocaenog, Menter Bro Cernyw wedi derbyn grant ar gyfer PPE ar gyfer y toiledau cyhoeddus. EHE yn adrodd fod toiledau cyhoeddus y sir yn mynd i gau yn ystod y cyfnod clo fydd yn cychwyn 23^{ain} Hydref 2020.

GD – wedi codi os yw Elwen Owen wedi derbyn cyfraniad o cyfrif Cronfa Bro Cernyw am ei gwaith. DR yn credu na swm penodol y mae'n dderbyn. CR i holi REW i weld os yw'n cofio. GD yn gofyn os oes angen pwyllgor i drafod y gronfa eleni. EHE yn nodi fod angen hysbysebu'r arian gan fod grantiau ar gael gan y cronfeydd eraill tebyg. GD yn gofyn os oes angen ehangu'r amcanion ar gyfer ceisiadau. Cynnigwyd a phasiwyd rhoi hysbysebion ar y wefan ac yn y papurau bro mis Tachwedd. EHE yn codi fod Ffion Foel a Prysor Williams yn trefnu cyfarfod nos Wener a holi os oedd modd cael cyfraniad tuag at ddigwyddiad ar gyfer y plant a phawb yn y gymuned (i'w benderfynu) ar gyfer y Nadolig i godi ysbryd gan fod teimlad yn eitha fflat eleni yn sgîl Covid-19. Angen rhoi cais i mewn i Elwen Owen wedyn i'w drafod. Penderfynwyd cynnal pwyllgor ar ddiwedd cyfarfod nesaf y Cyngor i drafod os bydd unrhyw gais wedi dod i mewn. CR i gysylltu ac Elwen Owen i drefnu'r hysbysebu.

CR wedi derbyn nodyn gan EW i ddweud fod y sgipiau ar gyfer Pandy Tudur a Gwytherin yn cael eu gohurio oherwydd y cyfyngiadau bydd yn dod i rym dydd Gwener (Covid-19).

11 CYFARFOD NESAF

25^{ain} Tachwedd 2020 (Cyfarfod Rhithiol ar Zoom)

Cyfarfod yn dod i ben 8:30yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan